**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Finance and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Christine Chapman AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

5 Chwefror 2015

Annwyl Christine

Diolch i chi am eich llythyr, dyddiedig 27 Ionawr 2015, ar ôl i mi fod yng nghyfarfod y Pwyllgor yn ymwneud â chynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17.

Fel y nodwyd gennych, rôl Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) yw cynnal asesiad integredig o effaith penderfyniadau gwariant lefel uchel Llywodraeth Cymru ac, fel y cyfryw, nid yw'n cynnwys asesiad effaith manwl yn ymwneud â phortffolios Gweinidogion unigol. Mae hyn yn unol â’r broses gyllidebol dau gam a argymhellwyd yn Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i Weithdrefnau Arferion Gorau o ran y Gyllideb. Mae hyn hefyd yn ymateb i adborth gan Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE).

Mae pob Awdurdod Lleol yn atebol i’w etholwyr am y penderfyniadau a wna. Mater i’r corff statudol perthnasol, fel y Comisiynydd Pobl Hŷn fydd barnu a yw Awdurdodau Lleol unigol wedi bodloni eu rhwymedigaethau statudol i gynnal asesiadau effaith ar nodweddion gwarchodedig. Yn yr un modd, gallai Swyddfa Archwilio Cymru edrych ar effaith gronnus drwy ei chyfrifoldeb i asesu capasiti a gallu i sicrhau gwelliant drwy'r amser.

Mae’n bwysig sylweddoli hefyd na fydd Awdurdodau Lleol wedi penderfynu sut y bydd eu cyllidebau’n cael eu dyrannu nac wedi cynnal eu hasesiadau effaith nes y cytunir ar y Gyllideb Ddrafft. Felly, mewn cyfnod lle mae cyllidebau’n llai, rhaid cydbwyso unrhyw fudd a geir wrth gasglu ac asesu gwybodaeth ar draws yr holl awdurdodau gyda'r adnoddau angenrheidiol, a'r budd a geir wrth wneud hynny i’r broses gwneud penderfyniadau a chraffu. Nid wyf yn credu ar hyn o bryd y byddai hyn yn rhoi mwy o syniad ynghylch effaith penderfyniadau'r Llywodraeth.

Ond, mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i asesu effaith ein penderfyniadau ynghylch gwariant a datblygu a gwella ein ffordd o weithio drwy’r amser flwyddyn ar ôl blwyddyn. Er enghraifft, fel y nodais yn fy llythyr atoch ar 19 Hydref 2015, rydym wedi gofyn i Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru edrych ar sut y gallai Llywodraeth Cymru wella’r ffordd y mae’n defnyddio asesiadau effaith yn y dyfodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran trechu tlodi, mae'r Prif Weinidog wedi datgan yn glir lawer gwaith bod trechu tlodi yn un o brif ymrwymiadau Llywodraeth Cymru. Drwy'r penderfyniadau rydym wedi'u gwneud yn y Gyllideb Ddrafft, rydym wedi cyfeirio adnoddau at flaenoriaethau yn seiliedig ar asesiad o'r effaith gadarnhaol fwyaf. O'r cychwyn un, mae hyn wedi golygu rhoi sylw i dlodi drwy weithio â staff arweiniol ym maes polisi trechu tlodi a defnyddio'r dystiolaeth a'r gwerthusiad sydd ar gael.

Er enghraifft, mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos bod profiadau plentyndod cynnar yn hollbwysig ar gyfer datblygiad a chyflawniad hirdymor yn ddiweddarach mewn bywyd, gan gyfrannu felly at dorri cylch tlodi. Felly, rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn blynyddoedd cynnar drwy warchod cyllideb Dechrau'n Deg, rhoi cyllid ychwanegol ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion a pharhau i ymrwymo i amddiffyn cyllid ar gyfer brecwast am ddim mewn ysgolion, llefrith am ddim mewn ysgolion a nofio am ddim.

Rwyf yn croesawu eich cydnabyddiaeth o'r dull Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau. Bu'r dull hwn yn ddylanwad ar Lywodraeth Cymru o ran ei ffordd o feddwl yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn ei dro, mae ein penderfyniadau yn y Gyllideb Ddrafft yn seiliedig ar nodau ac egwyddorion y Ddeddf, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i'w gweithredu'n llawn ac yn llwyddiannus. Mae hyn wedi ein galluogi i gynllunio'n effeithiol er nad oes sicrwydd cynnar am ein setliad cyllidebol, ac wedi ein helpu i gyhoeddi ein cyllideb o fewn pythefnos i ganlyniad yr Adolygiad o Wariant y DU gan ystyried yr effaith ar grwpiau gwarchodedig.

Wrth amddiffyn cyllid ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf, rydym wedi cydnabod bod y rhaglen hon yn gwneud cyfraniad pwysig i sicrhau gwelliannau ym meysydd iechyd, addysg a'r economi yn y 10 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Y nod yn hirdymor yw cyfrannu at liniaru tlodi parhaus. Yn ogystal â hynny, mae fframwaith canlyniadau'r rhaglen hon yn seiliedig ar Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau, ac mae hyn yn helpu i greu darlun cliriach o gyflawni yng nghyd-destun Trechu Tlodi.

Yn y gwerthusiad annibynnol diweddaraf o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, nodwyd bod ailgynllunio'r rhaglen i wella ei gallu i fodloni ei hamcanion a sicrhau canlyniadau i bobl wedi gwella ei chapasiti i wneud hynny. Rydym yn sylweddoli wrth gwrs bod heriau o hyd, ond drwy amddiffyn cyllid Cymunedau yn Gyntaf, gallwn barhau i weithio i wella'r gwaith o fonitro a rheoli perfformiad gan wneud yn siŵr bod y buddsoddiad pwysig hwn yn mynd ati'n wirioneddol i sicrhau canlyniadau gwell i bobl yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

Yn olaf, mae cofnodion tri chyfarfod diwethaf BAGE ar gael erbyn hyn:

http://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/budget-advisory-group-for-equality/?lang=cy

Yn gywir,

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business